

Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar Dwbercwlosis ag Ymwrthedd i'r Prif Gyffuriau (MDRTB)

Gwybodaeth i gleifion ar brosesu teg

1. Pwy ydym ni

Ni yw Cymdeithas Thorasig Prydain (BTS), elusen sy'n bodoli i wella safonau gofal i bobl sydd â chlefydau anadlol. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y bydd eich data'n cael ei ddefnyddio gan BTS. Mae'r Gymdeithas yn rheolydd data ar gyfer y data a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn, ac os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch ein defnydd o'ch data chi, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar waelod yr hysbysiad hwn.

2. Pa wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch?

Mae Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar Dwbercwlosis ag Ymwrthedd i'r Prif Gyffuriau (MDRTB) yn cadw data ar gleifion sy'n derbyn triniaeth ar gyfer Twbercwlosis ag Ymwrthedd i'r Prif Gyffuriau. Er mwyn darparu ein gwasanaeth cyngor clinigol arbenigol (sy'n wasanaeth di-dâl), bydd eich clinigydd yn anfon y canlynol at BTS: eich dyddiad geni, rhif GIG, rhif ETS, rhif NTBS a rhif LTBR (os yw ar gael), rhyw, cod post cartref, manylion eich cyflwr a gymerwyd o'ch cofnodion meddygol a sut rydych wedi ymateb i'r driniaeth. Rydym yn prosesu eich data am y rheswm hwn oherwydd bod gennym fuddiant dilys i ddarparu ein gwasanaeth cyngor clinigol arbenigol (sy'n blatfform ar gyfer hwyluso darparu cyngor), ac i hyrwyddo ein hamcanion elusennol. Hefyd, dim ond os byddwch wedi rhoi caniatâd penodol i gymryd rhan yn ein gwasanaeth cyngor clinigol arbenigol y bydd eich clinigydd yn anfon eich data atom.

Rydym hefyd yn derbyn data gan UK Health Security Agency (UKHSA), sy'n cadw gwybodaeth am sensitifrwydd i gyffuriau a gwybodaeth ddemograffig am gleifion fel oedran, rhyw, cydafiacheddau a ffactorau risg cymdeithasol. Pan fyddwch yn rhoi'ch caniatâd i gymryd rhan yn ein gwasanaeth cyngor clinigol arbenigol, rhoddir cyfle i chi hefyd roi caniatâd i UKHSA gysylltu eu data nhw â'n data ni. Mae cysylltu eich data fel hyn yn rhoi mwy o wybodaeth i'n harbenigwyr clinigol wrth iddynt edrych ar eich achos. Mae UKHSA yn derbyn eich rhif NHS, rhif ETS, rhif NTBS a rhif LTBR (os ydynt ar gael) er mwyn cysylltu'r ddwy set hyn o ddata.

Pan fyddwch yn cymryd rhan yn y gwasanaeth cyngor clinigol arbenigol, bydd panel o arbenigwyr yn adolygu manylion eich achos heb weld eich manylion personol ac yn rhoi cyngor i'ch clinigydd ar y camau nesaf arfaethedig i chi. Gall eich clinigydd ofyn am gyngor gan ein panel o arbenigwyr ar unrhyw adeg ar ôl i chi roi eich caniatâd gwreiddiol (oherwydd gall triniaeth barhau am nifer o fisoedd neu flynyddoedd). Gallwch dynnu'ch caniatâd yn ôl a pheidio â chymryd rhan yn ein panel adolygu gan arbenigwyr clinigol ar unrhyw adeg, naill ai drwy gysylltu â ni neu drwy roi gwybod i'ch clinigydd.

3. Sut mae'ch Data'n cael ei gasglu?

Mae clinigwyr yn casglu eich data o gofnodion ysbyty electronig a phapur. Mae'r rhain yn cael eu mewnbynnu ar offeryn casglu data ar-lein diogel a reolir gan BTS ac a ddarperir gan ein darparwyr storio data allanol dibynadwy, sy'n storio'r data yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mae mynediad i'r offeryn mewnbynnu data yn cael ei reoli'n ddiogel.

4. Ymchwil

Os ydych wedi rhoi eich caniatâd i gymryd rhan yn y gwasanaeth cyngor clinigol arbenigol ac i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio mewn ymchwil, rydym yn defnyddio'ch data at ddibenion ymchwil i helpu eraill sydd â chyflyrau meddygol tebyg i chi. Mae hyn yn golygu y gall ein hymchwilyr, yn ogystal â sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw sy'n cynnal gwaith ymchwil tebyg, ddadansoddi llawer iawn o ddata i gael darlun cyffredinol o sut mae cleifion yn cael eu trin a sut maent yn ymateb i wahanol driniaethau. Pan fo'n bosibl, rydym yn sicrhau nad yw'ch data'n cynnwys unrhyw wybodaeth a allai gael ei defnyddio i'ch

adnabod cyn iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion ymchwil, a gallwch wrthwynebu i'r defnydd o'ch data at ddibenion ymchwil ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni. Ni fyddwn byth yn defnyddio unrhyw ddata at ddibenion ymchwil a allai gael ei ddefnyddio i'ch adnabod yn uniongyrchol, a dim ond y tîm sy'n eich trin yn eich ysbyty chi fydd yn gallu gweld eich data adnabyddadwy. Rydym yn defnyddio'ch data yn y ffordd hon oherwydd bod hyn yn angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd drwy ganiatáu inni sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd.

5. Am ba hyd y byddwn yn defnyddio'ch data?

Bydd eitemau data adnabyddadwy am gleifion (rhifau GIG, ETS, NTBS a LTBR, dyddiad geni a dyddiad marwolaeth (os yw'n berthnasol)) yn cael eu cadw gennym am gyfnod amhenodol. Gall triniaeth ar gyfer y cyflwr hwn ddigwydd dros nifer o flynyddoedd, ac mae cadw eich data yn galluogi ein cyngorwyr clinigol i gyfeirio'n ôl at driniaethau yn y gorffennol i helpu'ch clinigydd ac eraill yn y dyfodol. Mae cadw'r wybodaeth hon dros gyfnod hir o amser hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau bod ymchwil yn gadarn ac yn effeithiol.

6. Eich hawliau mewn cysylltiad â'ch data

O dan rai amgylchiadau mae gennych hawl i:

- **Ofyn am fynediad** at eich data (a elwir yn gyffredin yn "gais am fynediad at ddata gan y testun"). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r data sydd gennym amdanoch ac i wirio ein bod yn ei brosesu'n gyfreithlon.
- **Gofyn am gywiriad** o'r data sydd gennym amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch.
- **Gofyn am ddileu** eich data. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu dynnu data lle nad oes rheswm da i ni barhau i'w brosesu. Hefyd, mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu neu gael gwared ar eich data am eich bod wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod).
- **Gwrthwynebu prosesu** eich data pan rydym yn dibynnu ar fuddiant dilys (neu fuddiant trydydd parti) a bod rhywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n gwneud i chi fod eisiau gwrthwynebu prosesu ar y sail hon. Mae gennych hefyd yr hawl i wrthwynebu pan fyddwn yn prosesu eich data at ddibenion gweithgarwch marchnata uniongyrchol, ymchwil neu ddibenion ystadegol.
- **Gofyn am gyfyngu** ar brosesu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu data amdanoch dros dro, er enghraifft, os ydych am i ni bennu cywirdeb y data neu'r rheswm dros brosesu'r data.
- **Gofyn am drosglwyddo** eich data i barti arall.

Mae cyfraith preifatrwydd yn aml yn gymhleth, ac mae p'un a yw'r hawliau hyn ar gael i chi yn dibynnu weithiau ar y mathau o ddata yr ydym yn ei drin, yn ogystal â pham rydym yn ei drin. Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar waelod yr hysbysiad hwn. Mae gennych bob amser yr hawl i gyflwyno cwyn i ni neu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yr awdurdod goruchwyllo ar gyfer materion diogelu data yng Nghymru a Lloegr.

7. Adborth

Rydym wedi gweithio'n galed i gynhyrchu hysbysiad byr sy'n esbonio'n glir sut y caiff eich data ei ddefnyddio.

Byddem yn croesawu'ch sylwadau a'ch awgrymiadau ar yr hysbysiad hwn. Os ydych yn teimlo ein bod wedi hepgor safbwynt pwysig neu wedi defnyddio iaith y credwch y gallem ei gwella, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.